

Cofrestrau Achrededig

Cryfhau ein hymagwedd at gydraddoldeb,
amrywiaeth a chynhwysiant yn y rhaglen Cofrestrau
Achrededig

Mawrth 2023

Ynglŷn â'r Awdurdod Safonau Proffesiynol

Mae'r Awdurdod Safonau Proffesiynol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn hyrwyddo iechyd, diogelwch a lles cleifion, defnyddwyr gwasanaeth a'r cyhoedd trwy godi safonau rheoleiddio a chofrestriad gwirfoddol pobl sy'n gweithio mewn iechyd a gofal. Rydym yn gorff annibynnol, sy'n atebol i Senedd y Deyrnas Unedig.

Rydym yn goruchwyllo gwaith 10 corff statudol sy'n rheoleiddio gweithwyr iechyd yn y Deyrnas Unedig a gweithwyr cymdeithasol yn Lloegr. Rydym yn adolygu perfformiad y rheolyddion ac yn archwilio a chraffu ar eu penderfyniadau am a yw pobl ar eu cofrestrau yn addas i ymarfer.

Rydym hefyd yn gosod safonau ar gyfer sefydliadau sy'n cynnal cofrestrau gwirfoddol o bobl mewn galwedigaethau iechyd a gofal heb eu rheoleiddio, ac yn achredu'r sefydliadau sy'n bodloni ein safonau.

I annog gwelliannau, rydym yn rhannu arfer da a gwybodaeth, yn cyflawni ymchwil ac yn cyflwyno syniadau newydd yn cynnwys ein cysyniad o reoleiddio cyffyrddiad cywir. Rydym yn monitro datblygiadau polisi yn y Deyrnas Unedig ac yn rhyngwladol ac yn darparu cyngor i lywodraethau ac eraill ar faterion yn ymwneud â phobl yn gweithio mewn iechyd a gofal cymdeithasol. Rydym hefyd yn cyflawni rhai comisiynau rhyngwladol i ehangu ein dealltwriaeth o reoleiddio ac i hyrwyddo diogelwch o ran mudoedd y gweithlu iechyd a gofal.

Ein gwerthoedd sefydliad yw: cywirdeb, tryloywder, parch, tegwch a gwaith tîm. Rydym yn ymdrechu i sicrhau bod ein gwerthoedd yn ganolog i'n gwaith. Ceir rhagor o wybodaeth am ein gwaith a dull o weithredu ar www.professionalstandards.org.uk.

Cynnwys

1. Cyflwyniad	4
2. Canlyniadau'r ymgynghoriad	7
3. Ein hymateb a beth rydym yn mynd i'w wneud	19
4. Effeithiau	22
5. Casgliad	23

1. Cyflwyniad

Ein hymagwedd at gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant hyd yma yn y rhaglen Cofrestrau Achrededig

- 1.1 Mae Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2012¹ yn nodi ein swyddogaethau a'n dyletswyddau i gofrestrau gwirfoddol achrededig, sef:
- 'i hyrwyddo buddiannau defnyddwyr gofal iechyd, defnyddwyr gofal cymdeithasol yn Lloegr, defnyddwyr gwasanaethau gwaith cymdeithasol yn Lloegr ac aelodau o'r cyhoedd mewn perthynas â pherfformiad swyddogaethau cofrestru gwirfoddol,
 - i hyrwyddo arfer gorau o ran perfformiad swyddogaethau cofrestru gwirfoddol, ac
 - i ffurfio egwyddorion llywodraethu da ym mherfformiad swyddogaethau cofrestru gwirfoddol ac i annof personau sy'n cynnal neu weithredu cofrestrau gwirfoddol achrededig i gydymffurfio â'r egwyddorion hynny.'
- 1.2 Mae Adran 25G o'r Ddeddf yn nodi er mwyn achredu cofrestr wirfoddol, y gall yr Awdurdod ei hasesu yn erbyn meini prawf y mae'n eu gosod a'u cyhoeddi (y *Safonau ar gyfer Cofrestrau Achrededig*). Mae cofrestr wirfoddol dan y diffiniad hwn yn gofrestr o'r bobl sy'n gweithio mewn rolau gofal iechyd yn y Deyrnas Unedig, a gofal cymdeithasol yn Lloegr, nad oes yn rhaid iddynt gael eu rheoleiddio i weithio.
- 1.3 Rydym yn cyflawni'r swyddogaeth hon drwy asesu a yw sefydliadau sy'n dal cofrestrau gwirfoddol yn bodloni ein *Safonau ar gyfer Cofrestrau Achrededig*. Mae gofynion sylfaenol ar gyfer pob Safon i helpu sicrhau cysondeb.
- 1.4 Fel corff cyhoeddus mae'n ofynnol i'r Awdurdod Safonau Proffesiynol ystyried ei Ddyletswydd Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus (PSED) wrth gyflawni ei swyddogaethau. Dylai cyrff cyhoeddus ystyried yr amcanion canlynol fel y nodir yn Adran 149 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010:
- 'ddiddymu gwahaniaethu, aflonyddu, erledigaeth ac unrhyw ymddygiad arall sydd wedi ei wahardd gan neu dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010;
 - hybu cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchoddedig berthnasol phobl rhai nad ydynt yn ei rhannu;
 - meithrin cysylltiadau da rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchoddedig berthnasol a'r rhai nad ydynt yn ei rhannu.'
- 1.5 O fewn y rhaglen rydym yn gwneud hyn mewn nifer o ffyrdd:
- 1) Ymatebion i ffactorau allanol, er enghraifft cyhoeddwyd datganiad yn ddiweddar gennym yn cefnogi'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth ar therapi trosi.² Mae hyn yn cadarnhau na fyddwn yn achredu unrhyw Gofrestr sy'n caniatáu therapi trosi, o gyfeiriadedd rhywiol neu hunaniaeth o ran rhywedd.

¹ [Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2012 \(legislation.gov.uk\)](https://legislation.gov.uk)

² <https://www.professionalstandards.org.uk/news-and-blog/latest-news/detail/2022/09/27/psa-supports-mou-on-conversion-therapy-and-welcomes-the-inclusion-of-gender-identity> [Cyrchwyd 3 Hydref 2022]

Mae hyn yn cyd-fynd â'n hymateb sefydliadol ehangach i ymgynghoriad diweddar Swyddfa'r Cabinet ar therapi trosi.³

- 2) Yr Asesiad Effaith (AE) a gynhaliwn ar gyfer penderfyniadau asesu unigol. Gwnaethom ddiweddarau'r broses hon yn dilyn yr adolygiad strategol ym mis Gorffennaf 2021. Arweiniodd hyn at newidiadau i'r dull asesu i roi mwy o ffocws ar gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant (EDI) ac i sicrhau bod effeithiau'n cael eu hystyried drwy gydol y broses asesu. Fodd bynnag, nid yw'r Asesiad Effaith yn canolbwyntio ar y gwaith y mae'r gofrestr yn ei wneud ar EDI ond ar effeithiau penderfyniad achredu'r Awdurdod, gan gynnwys ar grwpiau â nodweddion gwarchoddedig gwahanol.
 - 3) Prawf budd y cyhoedd (Safon 1b) sy'n caniatáu ystyried a yw er budd y cyhoedd i achredu cofrestr. Ystyrir EDI hefyd drwy asesu'r Safonau ehangach. Cryfhawyd hyn gennym yn dilyn yr adolygiad strategol drwy gynnwys y canlynol o fewn ein gofynion sylfaenol ar gyfer y Safonau ar gyfer Cofrestrau Achrededig:
 - 'Sicrhau bod trefniadau llywodraethu ac aelodaeth yn cynnwys ystod amrywiol o safbwyntiau ac arbenigedd nad ydynt yn gyfyngedig i'r rhai sy'n ymarfer yn y rôl (e.e. aelodau lleyg) (Safon 6 – Llywodraethu)
 - Datganiad sefydliadol ar EDI yn nodi ymrwymiad a sut y caiff ei hyrwyddo o fewn y Gofrestr (Safon 6 – Llywodraethu)
 - Mae gwefan a deunyddiau eraill y sefydliad yn darparu gwybodaeth glir a hygyrch am gyfyngiadau a manteision triniaethau a gynigir gan rolau cofrestredig (Safon 7 – rheoli risgiau yn deillio o weithgareddau cofrestryddion)
 - Gwefan sefydliadol glir a hygyrch (Safon 8 – Cyfathrebu ac Ymgysylltu)'.
- 1.6 Er gwaethaf hyn, credwn y gellid gwneud mwy yn ein hasesiadau i ystyried EDI a chodi safonau ymhlith y Cofrestrau Achrededig. Felly, fel rhan o'n Cynllun Gweithredu EDI⁴, fe wnaethom ymrwmo i archwilio ychwanegu Safon EDI bwrpasol ar gyfer y rhaglen Cofrestrau Achrededig.

Yr ymgynghoriad a phwy ymatebodd

- 1.7 Roedd yr ymgynghoriad⁵ yn ceisio barn ar ein cynigion i gryfhau ein hymagwedd at EDI o fewn y rhaglen achredu drwy gyflwyno Safon newydd ar gyfer Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant i'r *Safonau ar gyfer Cofrestrau Achrededig*. Parhaodd yr ymgynghoriad am 12 wythnos, o 25 Hydref 2022 hyd 17 Ionawr 2023.
- 1.8 Gofynnem 12 cwestiwn a chawsom 95 o ymatebion gan amrywiaeth o randdeiliaid gan gynnwys naw Cofrestr Achrededig gyfredol, un Gofrestr yn ystyried gwneud cais am achrediad, pum unigolyn cofrestredig (dau ohonynt wedi'u cofrestru â Chofrestr Achrededig), saith ymddiriedolaeth GIG a

³ Awdurdod Safonau Proffesiynol (Rhagfyr 2021) *Ymateb i ymgynghoriad Swyddfa Cydraddoldebau'r Llywodraeth ar wahardd therapi trosi*. Ar gael ar https://www.professionalstandards.org.uk/docs/default-source/publications/consultation-response/others-consultations/2021/professional-standards-authority-resonse-to-geo-consultation-on-banning-conversion-therapy.pdf?sfvrsn=421d4820_2 [Cyrchwyd 8 Mawrth 2023]

⁴ [Cydraddoldeb ac amrywiaeth \(professionalstandards.org.uk\)](https://www.professionalstandards.org.uk) [Cyrchwyd 8 Mawrth 2023]

⁵ [Ymgynghoriad PSA | Safon EDI newydd ar gyfer Cofrestrau Achrededig \(professionalstandards.org.uk\)](https://www.professionalstandards.org.uk) [Cyrchwyd 8 Mawrth 2023]

sefydliadau cysylltiedig ac un arbenigwr EDI . Ni roddodd y rhan fwyaf o ymatebwyr wybodaeth am bwy oeddent.

- 1.9 Er i ni gael nifer uchel o ymatebion, nid atebodd pob un o'r ymatebwyr bob cwestiwn. Cwestiynau Un a Dau, sef y rhai mwyaf cyffredinol, oedd â'r gyfradd ymateb uchaf.

2. Canlyniadau'r ymgynghoriad

Y Safon

- 2.1 Roeddem yn cynnig cyflwyno Safon EDI benodol i'r *Safonau ar gyfer Cofrestrau Achrededig*:


Safon 9: Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant

Mae'r sefydliad yn dangos ei ymrwymiad i gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ac yn sicrhau bod ei brosesau'n deg ac yn rhydd rhag gwahaniaethu annheg.

- Ategir swyddogaethau rheoleiddio'r gofrestr gan degwch a chydraddoldeb mynediad i unigolion cofrestredig a defnyddwyr gwasanaeth.
- Mae'r gofrestr yn deall amrywiaeth ei chofrestryddion, defnyddwyr gwasanaeth ac achwynwyr ac mae'n ymwybodol o faterion a allai effeithio ar y rhai â nodweddion gwarchoddedig⁶
- Mae'r gofrestr yn gweithio i hyrwyddo a gwella EDI trwy geisio deall a gweithredu ar faterion sy'n effeithio ar y rolau cofrestredig a defnyddwyr gwasanaeth.

Ydych chi'n meddwl y bydd ychwanegu Safon EDI yn arwain at fwy o ffocws ar EDI yn y rhaglen? Os na, sut allwn ni wella ein ffocws EDI?

- 2.2 Atebodd naw deg tri o ymatebwyr y cwestiwn hwn. O'r rhai a ymatebodd, cytunodd 56 (60%) y byddai ychwanegu Safon EDI yn arwain at fwy o ffocws ar EDI o fewn y rhaglen. Nid oedd nifer fach (7.5%) yn meddwl y byddai ac roedd y gweddill yn ansicr.




Ydych chi'n meddwl y bydd ychwanegu Safon EDI yn arwain at fwy o ffocws ar EDI gan Gofrestrau Achrededig? Esboniwch pam.

- 2.3 Atebodd saith deg naw o ymatebwyr y cwestiwn hwn. O'r rhai a ymatebodd, cytunodd 51 (70%) y byddai ychwanegu Safon EDI yn arwain at fwy o ffocws ar

⁶ Fel y'i diffinnir gan y Ddeddf Cydraddoldeb neu grwpiau a restrir o dan Adran 75 o Ddeddf Gogledd Iwerddon.

EDI gan Gofrestrau Achrededig. Nid oedd nifer fach (9%) yn cytuno ac roedd y gweddill yn ansicr.



- 2.4 Cafwyd amrywiaeth o sylwadau ynghylch a fyddai hyn yn arwain at ffocws gwell ar EDI ar gyfer y rhaglen Cofrestrau Achrededig a'r Cofrestrau Achrededig eu hunain. Roedd rhai ymatebwyr yn pryderu y gallai cael Safon EDI ar wahân arwain at ymateb tocynistaidd yn hytrach na gwreiddio EDI yn niwylliant y Cofrestrau Achrededig.

'Gall ychwanegu Safon EDI newydd ar gyfer Cofrestrau Achrededig PSA roi'r argraff bod yna ffocws ar EDI, ond ni fydd yn gwarantu bod EDI wedi'i gwreiddio'n wirioneddol yn niwylliant ac arferion cofrestrau. Mae wedi'i hen sefydlu ym maes EDI bod hyn yn cymryd cryn ymdrech ac amser a'i bod yn broses hir yn hytrach na digwyddiad.

Mae mynnu bod cofrestrau achrededig yn gweithredu safon EDI newydd o fewn amserlen y PSA yn cynyddu'r risg y bydd penodiadau 'tocyn' a phenderfyniadau brysiog yn cael eu gwneud gan gofrestrau i fodloni'r safon newydd.' (COSCA (Counselling & Psychotherapy in Scotland))

- 2.5 Fodd bynnag, roedd eraill yn meddwl y byddai cael Safon EDI benodol yn creu ffocws i Gofrestrau Achrededig ar bwysigrwydd EDI, yn cynyddu atebolrwydd ac yn dod â hwy yn unol â'r rheolyddion. Roedd yr ymatebwyr yn cydnabod y rôl y dylai Cofrestrau Achrededig ei chwarae wrth fynd i'r afael â gwahaniaethu a gweithio i wella mynediad cyfartal. Awgrymwyd y byddai cael disgwyliadau clir ac adborth adeiladol ar sut y gallai Cofrestrau Achrededig wella yn y maes hwn yn gam cadarnhaol ac yn helpu Cofrestrau Achrededig i hyrwyddo a gwella EDI trwy ei swyddogaethau cofrestru.

'Mae hyn yn cynyddu atebolrwydd ar gyfer y PSA a chofrestrau achrededig. Mae'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt gyda llawer o reolyddion gofal iechyd sydd eisoes â safonau EDI penodol ar gyfer y rhai maent yn eu cofrestru.' (Cofrestr Iechyd Cyhoeddus y Deyrnas Unedig)

- 2.6 Roedd cyfran sylweddol a oedd yn ansicr a fyddai cyflwyno'r Safon yn cael effaith gadarnhaol a dywedodd ymatebwyr y bydd yn dibynnu ar sut y caiff y Safon a'r gofynion sylfaenol eu gorfodi. Nododd rhai ymatebwyr fod hwn yn fan cychwyn da ond nad oeddem yn mynd yn ddigon pell a bod angen i ni godi'r bar ac ystyried ffactorau y tu allan i'r nodweddion gwarchoddedig. Roedd y meysydd

ychwanegol a awgrymwyd i'w cynnwys yn y Safon yn cynnwys ffactorau economaidd-gymdeithasol, croestoriad, a niwroamrywiaeth. Cydnabuwyd bod diwylliant sefydliadol hefyd yn bwysig, ond teimlwyd nad oedd ein cynigion yn gwneud digon i fynd i'r afael â hyn ac o ganlyniad roedd risg y gallai hwn ddod yn ymarfer 'ticio blychau'. Awgrymwyd y byddai canolbwyntio mwy ar amrywiaeth Bwrdd a Phwyllgor yn helpu i liniaru hyn. Awgrymodd ymatebwyr hefyd y dylid cynnal arolwg o unigolion cofrestredig lleiafrifol i ofyn beth y gellid ei wneud yn well, gan ymgorffori ystyriaethau EDI yn llawn mewn safonau addysg a hyfforddiant a dadansoddi canlyniadau addasrwydd i ymarfer gwahaniaethol.

- 2.7 Roedd rhai ymatebwyr yn cwestiynu a oedd angen Safon newydd a nododd un ymatebwr fod llawer o Gofrestrau Achrededig eisoes yn gweithio ar EDI ac y byddai'n well cynyddu'r gofynion EDI o fewn y Safonau presennol.

'Mae CNHC yn cefnogi'n llwyr ffocws cynyddol ar Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant yn ein gwaith gyda chofrestryddion i hyrwyddo mynediad at gofrestr fwy heterogenaidd ac efallai'n bwysicach fyth wrth sicrhau bod ein poblogaeth amrywiol yn y DU yn cael ei diogelu. Ar hyn o bryd mae CNHC yn hyrwyddo ac yn gwella EDI ledled y sefydliad yn enwedig trwy ein mecanweithiau llywodraethu a chyfathrebu. Ar sail y profiad hwn, gellid dadlau bod ymgorffori gofynion EDI ymhellach yn Safonau 1b ('prawf budd y cyhoedd'), 4 (Addysg a Hyfforddiant), 5 (Ymdrin â Chwynion), 6 (Llywodraethu) ac 8 (Cyfathrebu) yn ffordd well o gyfleu'r neges bod EDI yn ganolog i holl weithrediad y Cofrestrau Achrededig.' (Cyngor Gofal Iechyd Cyflenwol a Naturiol)

- 2.8 Roedd ymatebwyr eraill yn aneglur ynghylch sut y byddai cael safon EDI ar wahân yn arwain at ffocws gwell ar EDI ar gyfer y rhaglen gan nodi bod angen meddwl am hyn yng nghyd-destun gwaith arall y mae'r Awdurdod yn ei wneud yn y maes hwn. Awgrymwyd y byddai canolbwyntio ein hadnoddau ar hyrwyddo'r rhaglen fel ei bod yn cyrraedd ystod fwy amrywiol o bobl yn amddiffyn y cyhoedd yn well.

Y gofynion sylfaenol

- 2.9 Gwnaethom gynnig y gofynion sylfaenol canlynol ar gyfer bodloni'r Safon:

Rhif	Safon	Engbreiffiau o Dystiolaeth a Ystyriwyd	Safon Ofynnol
9a	EDI	<p>Ystyried EDI wrth benodi penderfynwyr ac yng nghyfansoddiad Byrddau, Pwyllgorau a Phaneli.</p> <p>Prosesau perthnasol ar gyfer staff ac eraill sy'n ymwneud â gweithgareddau'r gofrestr e.e. chwythu'r chwiban, gwrth-fwlio, recriwtio, ymdrin â chwynion ac ati.</p> <p>Polisiâu a gweithdrefnau perthnasol.</p>	<p>Mae gan y Gofrestr bolisiâu mewnol perthnasol megis chwythu'r chwiban, gwrth-fwlio, recriwtio.</p> <p>Mae'r Gofrestr yn ystyried EDI wrth benodi penderfynwyr a chreu paneli i wrando ar gwynion.</p> <p>Dylai'r gofrestr ddarparu gwybodaeth hygyrch wedi'i hanelu at ddefnyddwyr gwasanaeth ar ei gwefan am ei rôl, y galwedigaethau</p>

		<p>Enghreiffiau o Aseidiadau Effaith a gynhaliwyd.</p> <p>Hygyrchedd gwybodaeth ar y wefan sydd wedi'i hanelu at y rhai sy'n cofrestru.</p> <p>Prosesau trin cwynion ar gyfer ymdrin â chwynion yn erbyn unigolion cofrestredig.</p> <p>Polisiâu addasiadau rhesymol.</p>	<p>a gwmpesir ar y gofrestr a swyddogaethau allweddol megis ymdrin â chwynion.</p> <p>Dylai'r gofrestr ddarparu cymorth i achwynwyr lle bo angen, dylai hyn gynnwys galluogi achwynwyr i wneud cwyn a'u cefnogi drwy'r broses.</p> <p>Dylai'r gofrestr ddileu unrhyw rwystrau diangen i gymryd rhan yn y broses ymdrin â chwynion i bawb dan sylw.</p> <p>Wrth gyflwyno newidiadau i swyddogaethau a pholisïau allweddol, dylid ystyried a fydd y rhain yn effeithio'n andwyol ar unrhyw grwpiau ac os felly, sut y caiff hyn ei liniaru.</p>
9b	EDI	<p>Polisiâu a gweithdrefnau ar gyfer casglu a dadansoddi data EDI y rhai sy'n cofrestru.</p> <p>Adroddiadau ar ddata cofrestru/cwynion sy'n ystyried gwybodaeth ddemograffig.</p>	<p>Dylai'r gofrestr gasglu data demograffig am ei chofrestryddion fel y gall ddeall amrywiaeth sylfaen y rhai sydd wedi cofrestru.</p> <p>Dylai'r gofrestr ddefnyddio'r data demograffig y mae'n ei gasglu i nodi a oes unrhyw feysydd o annhegwch posibl yn ei phrosesau cwyno, ac i weithredu ar y rhain.</p> <p>Prosesau ar waith i nodi effeithiau tebygol ar ddefnyddwyr gwasanaeth â nodweddion gwarchoddedig, ac ar gyfer nodi a monitro mesurau lliniaru.</p> <p>Mae gan y Gofrestr brosesau ar waith ar gyfer nodi a lliniaru rhwystrau posibl i gofrestru.</p>

			Lle bo'n berthnasol, mae gan y gofrestr brosesau ar waith ar gyfer nodi a lliniaru rhwystrau posibl i addysg a hyfforddiant.
9c	EDI	<p>Strategaethau a chynlluniau EDI. Datganiadau Cyhoeddedig.</p> <p>Trafodaethau Bwrdd ar faterion EDI.</p> <p>Gwybodaeth am waith y mae'n ei wneud gyda sefydliadau eraill i hyrwyddo EDI.</p> <p>Ymchwil i EDI lle bo'n berthnasol i waith a rolau cofrestredig y Gofrestr.</p> <p>Gwybodaeth a ddarperir ar y wefan.</p>	<p>Mae'r gofrestr wedi cyhoeddi polisïau EDI gan gynnwys Datganiad EDI. Mae'r Gofrestr yn adrodd ar gynnydd yn erbyn ei chynlluniau i'w Bwrdd (neu gyfwerth).</p> <p>Dylai'r gofrestr weithio gyda sefydliadau eraill lle bo angen i hyrwyddo EDI a dileu unrhyw rwystrau diangen i'w chofrestryddion a'u defnyddwyr gwasanaeth.</p>

A yw'r gofynion sylfaenol wedi'u gosod ar y lefel gywir? A fydddech chi'n cynnwys unrhyw beth gwahanol?

- 2.10 Ni atebodd y rhan fwyaf o'r atebwyr y cwestiwn hwn. O'r rhai a wnaeth, nid oes mwyafrif clir ynghylch a yw'r gofynion sylfaenol wedi'u gosod ar y lefel gywir.
- 2.11 Roedd sylwadau i'r cwestiwn hwn yn gymysg gyda rhai ymatebwyr yn nodi eu bod wedi'u gosod i lefel uchel, gan adlewyrchu pwysigrwydd EDI ac eraill yn nodi eu bod yn rhy amwys ac fater o ddehongliad.

'Ydyn. Mae'r gofynion yn ymddangos yn drylwyr a byddant yn ddefnyddiol i ni fel darpar gofrestr wrth lunio ein polisïau a'n gweithdrefnau.' (Sefydliad y Rheolwyr Achos Cofrestredig)

- 2.12 Roedd rhai ymatebwyr yn meddwl eu bod yn uchelgeisiol, eraill nad oeddem wedi mynd yn ddigon pell. Roedd eraill eisiau gwybod pa gamau y byddwn yn eu cymryd i sicrhau bod Cofrestrau Achrededig yn parhau i wella a gwella EDI yn y dyfodol. Dywedodd rhai ymatebwyr, er eu bod wedi'u gosod ar y lefel gywir, y gallai fod anawsterau wrth eu gweithredu mewn cyfnod byr o amser ac felly mae angen rhoi ystyriaeth ofalus i'r gweithredu.

'Mae'r gofynion sylfaenol wedi'u gosod ar lefel uchel ac o ystyried pwysigrwydd EDI mae'n briodol eu gosod ar lefel uchel. Fodd bynnag, gan y gallai'r holl gofrestrau achrededig fod ar gamau gwahanol o ran EDI, byddai angen rhoi ystyriaeth ofalus i gyflwyno'r gofyniad hwn yn raddol. Mae'r gofynion sylfaenol yn rhoi sylfaen ddigon eang i gofrestrau adeiladu ar eu polisïau a'u gwaith EDI. Bydd y cofrestrau hynny nad ydynt wedi cysylltu â'r

rhai sydd wedi eu cofrestru ganddynt neu yn wir at ddefnyddwyr gwasanaeth, yn cael cyfle i goladu gwybodaeth a fydd yn bwydo i mewn i strategaeth cofrestr.' (Cymdeithas Cynghori a Seicotherapi Prydain)

2.13 Awgrymodd ymatebwyr bwyntiau eraill y dylem eu cynnwys, roedd enghreifftiau o gyfeirio at hygyrchedd dogfennaeth yn cynnwys y defnydd o Saesneg Clir, canllawiau hawdd eu darllen ac ystyried darllenwyr sgrin a thechnoleg arall. Teimlai ymatebwyr y dylem gynnwys mwy am ymwybyddiaeth gyffredinol o faterion EDI megis cydraddoldeb, tegwch, hawliau sifil, cyfiawnder cymdeithasol a diogelu ac y dylem gyfeirio at y Ddeddf Cydraddoldeb o fewn y Safon a/neu ofynion sylfaenol. Awgrymodd un ymateb hefyd y dylai cwblhau Asesiadau Effaith Cydraddoldeb (EIA) fod yn ofyniad sylfaenol.


2.14 Roedd ffocws ar gasglu data o fewn yr ymatebion. Unwaith eto, roedd cymysgedd o'r rhai a oedd yn cefnogi casglu data. Gwelodd llawer y manteision o gasglu data am unigolion cofrestredig i alluogi Cofrestrau Achrededig i ddeall eu sylfaen o unigolion cofrestredig yn well. Awgrymwyd y dylem hefyd edrych ar adrodd a rhannu'r data hwn er mwyn galluogi sefydliadau allanol i gael gwell dealltwriaeth o weithlu'r Gofrestr Achrededig.

'O ran data, mae Conffederasiwn y GIG o'r farn bod ffocws ar y disgwyliadau ynghylch casglu a defnyddio data yn gynhwysiant cadarnhaol ond rydym yn argymhell y dylai fod gofyniad hefyd i ddefnyddio'r data hwn i ysgogi newid cadarnhaol yn fewnol ac yn systematig. Croesewir anogaeth i gynhyrchu a chyhoeddi adroddiadau.' (Conffederasiwn y GIG)

2.15 Roedd ymatebwyr eraill yn cwestiynu defnyddioldeb casglu'r math hwn o ddata o ystyried ei fod yn wirfoddol ac felly'n aml yn arwain at setiau data anghyflawn. Nododd sawl ymatebwr na fyddai'n bosibl casglu data am ddefnyddwyr gwasanaeth ac felly roeddent yn meddwl tybed sut y byddai Cofrestr Achrededig yn dangos dealltwriaeth o'r defnyddwyr gwasanaeth.

'Rydym yn cytuno bod gwella arfer EDI gan gofrestrau yn y pen draw yn ymwneud â gwella ansawdd gofal i ddefnyddwyr gwasanaethau. Fodd bynnag, nid ydym yn glir sut y byddai gofyniad i 'ddeall amrywiaeth ei... ddefnyddwyr gwasanaeth...' yn cael ei fodloni neu ei fesur gan nad ydym yn casglu, ac mae'n debyg na allem, gasglu unrhyw ddata ar gleifion yr unigolion rydym yn eu cofrestru. Mewn perthynas â'r nodweddion gwarchoddedig mae casglu a dadansoddi data yn ganolog i ddeall pryd a ble mae gwahaniaethu yn digwydd ac yn rhywbeth a ddylai fod yn ofynnol mewn perthynas ag unigolion cofrestredig ac achwynwyr. Gan nad yw'n bosibl i gofrestrau 'ddeall' defnyddwyr gwasanaethau a ddarperir gan unigolion cofrestredig yn y modd hwn, mae angen eglurhad pellach ynghylch yr hyn a ddisgwylir gan y gofrestrau. Drwy wella ein Cod Ymddygiad Proffesiynol a Moeseg, darparu DPP ac ati i unigolion cofrestredig, ein nod yw gwella tegwch a chydraddoldeb mynediad i bobl â nodweddion gwarchoddedig gan ddefnyddio seicotherapyddion plant a phobl ifanc ond byddwn yn pryderu sut y byddem yn bodloni gofyniad i gasglu data ar defnyddwyr gwasanaeth.' (Association of Child Psychotherapy)

A yw'r enghreifftiau o dystiolaeth a awgrymwyd yn caniatáu inni asesu'r Safon hon? Pa dystiolaeth arall fydddech chi'n ei chynnwys?



2.16 Atebodd pedwar deg pump o ymatebwyr y cwestiwn hwn. Darparodd y rhan fwyaf o ymatebwyr awgrymiadau o dystiolaeth y dylem eu hystyried. Roedd yr awgrymiadau'n cynnwys: tystiolaeth o ofynion hyfforddi staff; Recriwtio; aelodaeth o rwydweithiau fel cynghreiriaid; cymryd rhan mewn cynlluniau mentora, hyfforddi; ymgysylltu â gwahanol gymunedau; addasiadau rhesymol ar gyfer unigolion cofrestredig; ystyried cwynion sefydliadol yn ymwneud â materion EDI; a data ar weithwyr, aelodau'r Bwrdd a Phwyllgorau.

2.17 Awgrymwyd y byddai'n fwy addas i rywfaint o'r dystiolaeth arfaethedig fod yn ofynion sylfaenol, a cafwyd awgrymiadau i'r gwrthwyneb hefyd, ac felly byddai adolygiad o'r rhain yn ddefnyddiol i wneud y gofynion yn gliriach.

Newidiadau i Safonau eraill

2.18 Nodwyd y gofynion sylfaenol canlynol yr oeddem yn bwriadu eu hychwanegu at y Safonau presennol:⁷⁸

- Mae cofrestrau'n sicrhau bod eu hunigolion cofrestredig wedi'u harfogi i ofalu am boblogaeth amrywiol trwy eu haddysg a'u hyfforddiant (Safon 4 – Addysg a Hyfforddiant)
- Dylai cofrestrau sy'n cymeradwyo sefydliadau hyfforddi eraill ystyried EDI wrth asesu addasrwydd cyrsiau ar gyfer eu cofrestr (Safon 4 – Addysg a Hyfforddiant)
- Mae cofrestrau yn sicrhau eu bod wedi ystyried Safon y Gymraeg lle bo'n briodol (Safon 8 – Cyfathrebu)
- Bod gan gofrestrau brosesau teg ar waith ar gyfer recriwtio, hyfforddiant, gan gynnwys hyfforddiant EDI perthnasol, a monitro parhaus o aelodau'r Bwrdd a Phwyllgorau. (Safon 6 – Llywodraethu)

2.19 Rydym wedi nodi'r newidiadau canlynol:

- Safon 5 (ymdrin â chwynion) mae un o'r gofynion sylfaenol yn darllen 'mae gan y gofrestr broses ar gyfer recriwtio, hyfforddi a monitro parhaus y rhai sy'n gwneud penderfyniadau allweddol mewn prosesau disgyblu.' Rydym yn cynnig newid hyn i 'mae gan y gofrestr broses ar gyfer recriwtio,

⁷ [Safonau ar gyfer Cofrestrau Achrededig \(professionalstandards.org.uk\)](http://professionalstandards.org.uk)


⁸ [Fframwaith tystiolaeth Cofrestrau Achrededig \(professionalstandards.org.uk\)](http://professionalstandards.org.uk)

hyfforddiant, gan gynnwys hyfforddiant EDI perthnasol, a monitro parhaus y rhai sy'n gwneud penderfyniadau allweddol mewn prosesau disgyblu.

- Safon 6 (Llywodraethu) – mae un o'r gofynion sylfaenol yn nodi: 'dylai fod gan y gofrestr brosesau ar waith i sicrhau bod data'n cael ei drin yn briodol.' Rydym yn cynnig newid hyn i 'dylai'r gofrestr fod â pholisïau prosesu data perthnasol yn eu lle, gan gynnwys ar gyfer dal a phrosesu data EDI.'
- Safon 6 (Llywodraethu) – dileu'r gofyniad sylfaenol i gynnal Datganiad EDI, gan y bydd hyn yn cael ei gynnwys yn y Safon ofynnol newydd ar gyfer Safon 9.

Ydych chi'n meddwl bod angen i ni wneud unrhyw newidiadau ychwanegol i'r gofynion sylfaenol presennol? Rhowch fanylion y newidiadau i'r gofynion sylfaenol presennol sydd eu hangen.

- 2.20 Atebodd pedwar deg un o ymatebwyr y cwestiwn hwn gyda'r rhan fwyaf o ymatebwyr (49%) yn cytuno bod angen newidiadau i'r gofynion sylfaenol presennol.




- 2.21 Ni chawsom lawer o sylwadau yn erbyn y cwestiwn hwn, ond o'r rhai a gawsom, roedd y rhan fwyaf yn awgrymu newidiadau pellach.
- 2.22 O dan gyfathrebu (Safon Wyth), teimlwyd na ddylem nodi'r Gymraeg gan fod hyn yn anwybyddu'r llu o ieithoedd eraill a siaredir yn y DU. Yn hytrach, awgrymwyd y dylem ganolbwyntio ar hygyrchedd canllawiau a dogfennau yn fwy cyffredinol.
- 2.23 Teimlwyd hefyd y dylid rhoi mwy o bwyslais ar ymdrin â chwynion. Yn fwy penodol sut mae sefydliadau'n ystyried cwynion sy'n cynnwys materion EDI a sut mae Cofrestrau Achrededig yn sicrhau bod paneli cwynion a'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau yn ddiduedd.
- 2.24 Fel gyda'r gofynion sylfaenol ar gyfer y Safon newydd, awgrymwyd y dylid adolygu geiriad y newidiadau arfaethedig i'r gofynion sylfaenol presennol er mwyn sicrhau eglurder ar gyfer Cofrestrau Achrededig.

Canllawiau atodol a rhannu arfer da

A fyddai canllawiau ychwanegol ar unrhyw agwedd ar y Safon hon yn ddefnyddiol? Rhowch fanylion unrhyw ganllawiau ychwanegol.

- 2.25 Atebodd tri deg saith o ymatebwyr y cwestiwn hwn, gydag ychydig dros ddwy ran o dair yn cytuno y byddai canllawiau ychwanegol yn ddefnyddiol ar gyfer y Safon hon.




- 2.26 Dywedodd y mwyafrif o'r rhai a ymatebodd i'r cwestiwn hwn fod angen mwy o arweiniad. Roedd yr ymatebwyr hyn yn fras yn perthyn i ddau grŵp. Roedd y grŵp cyntaf eisiau mwy o eglurder ar y Safon ei hun, yn enwedig o ran data a'r mathau o ddata y dylai Cofrestrau Achrededig fod yn eu casglu.
- 2.27 Roedd yr ail grŵp eisiau mwy o arweiniad ar ffactorau EDI ehangach gan gynnwys pam ei bod yn bwysig ei ystyried mewn gofal iechyd ac esboniadau o ffactorau megis cysylltiadau pŵer, sut i gynnal asesiadau effaith cydraddoldeb a thuedd anymwybodol wrth wneud penderfyniadau.
- 2.28 Roeddem yn cynnig parhau i amlygu arfer da fel canfyddiadau cadarnhaol mewn adroddiadau asesu cyhoeddedig ac yn yr adran 'arfer da' yng nghylchlythyr y Gofrestr Achrededig er mwyn galluogi Cofrestrau Achrededig i ddysgu oddi wrth ei gilydd.

A oes unrhyw beth arall y gallem ei wneud i rannu arfer da rhwng y Cofrestrau Achrededig? Rhowch fanylion am ffyrdd eraill y gallem rannu arfer da.

- 2.29 Atebodd tri deg pedwar o ymatebwyr y cwestiwn hwn. O'r rhai a ymatebodd roedd ychydig llai na hanner yn meddwl bod mwy y gallem ei wneud i rannu arfer da.

A oes unrhyw beth arall y gallem ei wneud i rannu arfer da rhwng y Cofrestrau Achrededig?




- 2.30 Roedd yr awgrymiadau'n cynnwys creu fforwm trafod lle gallai Cofrestrau Achrededig ddod at ei gilydd i drafod materion penodol EDI a rhannu gwaith y maent yn ei wneud yn y maes hwn. Awgrymodd un ymatebwr y dylai'r tîm Achredu ddarparu crynodeb o'r canlyniadau ar ôl blwyddyn gyntaf yr asesiadau, er mwyn helpu i rannu arfer da. Awgrym arall oedd datblygu gofod ar-lein lle gallai Cofrestrau Achrededig rannu adnoddau EDI, megis astudiaethau achos, calendrau dyddiadau allweddol a dogfennau arfer da.

Gweithredu'r Safonau diwygiedig

- 2.31 Cynigiwyd ein bod yn cyflwyno'r Safon newydd ym mis Ebrill 2023. Byddai pob cais newydd a dderbynnir ar ôl y pwynt hwn yn cael ei asesu yn erbyn y Safon newydd. Byddai Cofrestrau Achrededig cyfredol yn cael eu hasesu yn ei herbyn fel rhan o'u gwiriadau blynyddol neu asesiadau llawn rhwng mis Ebrill 2023 a mis Mawrth 2024. Byddai sefydliadau sy'n mynd trwy eu hasesiad cyntaf ar hyn o bryd yn cael eu hasesu yn erbyn y Safon newydd yn eu hadolygiad cyntaf yn dilyn achrediad. Cynigiom hefyd na ddylid cyhoeddi Amodau oni bai bod mater diogelu'r cyhoedd yn cael ei amlygu yn ystod y flwyddyn gyntaf hon o gyflwyno os ydym yn cael ein sicrhau bod y Gofrestr Achrededig yn gweithio i fabwysiadu'r gofynion sylfaenol.

A yw ein dull o asesu'r Safon newydd yn ymddangos yn rhesymol a chymesur? Eglurwch pam nad yw ein cynigion yn rhesymol nac yn gymesur.

- 2.32 Ymatebodd tri deg chwech i'r cwestiwn hwn, ac roedd ychydig dros hanner yn cytuno.



A yw'r amserlenni a awgrymir ar gyfer gweithredu'r Safon hon yn ymddangos yn rhesymol? Eglurwch pam nad yw'r amserlenni gweithredu yn rhesymol.

- 2.33 Ymatebodd tri deg pedwar i'r cwestiwn hwn gyda 59% yn cytuno bod yr amserlenni'n ymddangos yn rhesymol.



- 2.34 Yn gyffredinol, roedd ymatebwyr yn cytuno bod yr amserlenni'n ymddangos yn rhesymol, er bod rhai a nododd y gallai'r amseriad ar gyfer gweithredu fod yn her i rai o'r Cofrestrau Achrededig llai. Roedd hon yn thema a welwyd drwy gydol yr ymatebion i'r holl gwestiynau. Nododd ymatebwyr fod Cofrestrau Achrededig yn debygol o fod yn gam gwahanol yn eu hystyriaeth o EDI, felly i rai gallai gweithredu'r gofynion sylfaenol mewn cyfnod byr o amser fod yn anodd ac yn gostus.
- 2.35 Nododd ymatebwyr fod angen arweiniad ac eglurhad pellach ar yr hyn yr ydym yn gofyn amdano ac y dylid rhoi mwy o amser i Gofrestrau Achrededig cyn eu gweithredu gan na fyddai gan y rhai sy'n mynd drwy'r gwiriad blynyddol neu asesuadau llawn yn ystod rhan gyntaf y flwyddyn ddigon o amser i ystyried y gofynion sylfaenol. Teimlwyd, er gwaethaf ein cynllun gweithredu arfaethedig, na fyddai hyn yn deg i'r Cofrestrau Achrededig hynny. Awgrymwyd y dylem

deilwra'r broses o weithredu'r Gofrestr Achrededig gan ystyried eu hamgylchiadau unigol a'r gwaith yr oeddent eisoes wedi'i wneud. Awgrym arall oedd ein bod yn ystyried rhoi'r Safon newydd ar waith yn ddiweddarach yn y flwyddyn er mwyn rhoi amser i Gofrestrau Achrededig roi'r gofynion sylfaenol ar waith. Nododd ymatebwyr eraill, er ei bod yn ymddangos bod ein cynigion o ran cyhoeddi Amodau yn gymesur, y byddai'n dal i fod yn drwm o ran adnoddau i weithredu rhai o'r gofynion sylfaenol a bod y dull hwn yn symud y costau i flwyddyn arall.

- 2.36 Roedd yna rai a deimlai nad oeddem yn mynd yn ddigon pell ac eraill a deimlai fod hwn yn gam cyntaf da. Awgrymwyd, o ystyried y gwahanol gamau yr oedd y Cofrestrau Achrededig arnynt, y dylem edrych ar ddull fesul cam, gan amlygu'r gofynion sylfaenol yr ydym yn eu hystyried yn bwysicach ac y dylai'r Cofrestrau Achrededig ganolbwyntio arnynt.

3. Ein hymateb a beth rydym yn mynd i'w wneud

Y Safon

- 3.1 Yn gyffredinol, nododd ymatebwyr eu bod yn cefnogi ychwanegu Safon EDI newydd at y *Safonau ar gyfer Cofrestrau Achrededig*. Roedd y rhai a gefnogodd yr ychwanegiad yn cydnabod y manteision i ddefnyddwyr gwasanaeth a chofrestryddion o ganolbwyntio ar EDI. Nid oedd hon yn farn a rennir gan bawb. Teimlai rhai ymatebwyr nad oedd cyflwyno EDI newydd yn cyd-fynd ag ymagwedd yr Awdurdod at reoleiddio cyffyrddiad cywir gan ei fod eisoes yn cael ei ystyried gan Gofrestrau Achrededig ac nid oedd llawer o dystiolaeth y byddai ychwanegu safon newydd yn arwain at well amddiffyniad i'r cyhoedd. Teimlai ymatebwyr eraill nad oeddem yn mynd yn ddigon pell yn yr hyn a gynigiwyd gennym.
- 3.2 Fel corff cyhoeddus mae'n ofynnol i'r Awdurdod Safonau Proffesiynol ystyried ei Ddyletswydd Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus (PSED) wrth gyflawni ei swyddogaethau. Dylai cyrff cyhoeddus ystyried yr amcanion canlynol fel y nodir yn a149 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010:
 - 'ddiddymu gwahaniaethu, aflonyddu, erledigaeth ac unrhyw ymddygiad arall sydd wedi ei wahardd gan neu dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.
 - hybu cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchoddedig berthnasol phobl rhai nad ydynt yn ei rhannu.
 - meithrin cysylltiadau da rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchoddedig berthnasol a'r rhai nad ydynt yn ei rhannu.'
- 3.3 Credwn y byddai ychwanegu Safon EDI yn ein helpu i gyflawni hyn. Amlygodd ein cyhoeddiad diweddar *Gofal Diogel i Bawb* yr angen i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd mewn iechyd a gofal yn y DU. Mae'r adroddiad yn trafod y rôl y gall rheoleiddwyr a Chofrestrau Achrededig ei chwarae i helpu lliniaru'r manteision neu'r anfanteision strwythurol a welir gan wahanol grwpiau. Mae'n amlygu sawl ffactor gan gynnwys yr angen i gael penderfynwyr amrywiol ac uwch arweinyddiaeth, pwysigrwydd llais y claf a'r defnydd o ddata. Nododd bwysigrwydd data wrth fynd i'r afael ag anghydraddoldebau o ran deall y sylfaen o unigolion cofrestredig, ond hefyd o ran deall effaith polisïau a phrosesau a ddefnyddir gan y rheolyddion a'r gofrestr Cofrestrau Achrededig.⁹
- 3.4 Mae angen i Gofrestrau Achrededig allu dangos eu bod yn deall y materion EDI sy'n effeithio ar y rolau y maent yn eu cofrestru, a'r defnyddwyr gwasanaeth sy'n debygol o geisio gwasanaethau eu hunigolion cofrestredig. Bydd cael gwell dealltwriaeth o'u hunigolion cofrestredig a'r rhwystrau posibl i ymuno â'r proffesiwn y maent yn ei gofrestru yn galluogi Cofrestrau Achrededig i sicrhau bod eu prosesau'n lliniaru hyn lle bo modd. Bydd cyflwyno safon benodol yn sicrhau bod gennym fecanwaith clir ar gyfer gwirio bod Cofrestrau Achrededig yn canolbwyntio ar wella mynediad a dileu rhwystrau i'w cofrestr ar gyfer gwahanol grwpiau o bobl.
- 3.5 Rydym yn cydnabod bod rhai Cofrestrau Achrededig eisoes yn ystyried EDI yn y gwaith a wnânt, a bod Cofrestrau Achrededig mewn gwahanol gamau o'u gwaith EDI. Credwn fod angen ychwanegu Safon EDI â ffocws i sicrhau bod Cofrestrau Achrededig yn cyrraedd yr un safon o ran EDI. Bydd cael Safon EDI

⁹ [Gofal mwy diogel i bawb. Atebion o reoleiddio proffesiynol a thu hwnt \(professionalstandards.org.uk\)](http://professionalstandards.org.uk)

yn ein galluogi i hwyluso dysgu a rhannu arfer da ac felly gwella a hyrwyddo ystyriaethau EDI o fewn y rhaglen Cofrestrau Achrededig. Gan gydnabod yr angen i fod yn gymesur, byddem yn adolygu lefel ein gofynion sylfaenol dros amser, gyda'r nod o godi'r bar cyffredinol ar gyfer EDI fesul cam.

- 3.6 Bydd cael gwell dealltwriaeth o sylfaen y cofrestryddion yn ein helpu i wella ein hasesiadau effaith a fydd yn helpu amlygu meysydd y gall fod angen i ni ganolbwyntio arnynt. Bydd hyn hefyd yn sicrhau y gallwn wneud penderfyniadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth ynghylch lle mae angen i ni ganolbwyntio ein hymdrechion ar gefnogi Cofrestrau Achrededig i gyrraedd grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol.
- 3.7 Mae ymwybyddiaeth gynyddol o bwysigrwydd EDI mewn iechyd a gofal i gleifion, y cyhoedd a chofrestryddion. Canfu adolygiad systematig a gynhaliwyd gan Doyle, Lennox, a Bell, a gyhoeddwyd yn 2013, fod cysylltiad cadarnhaol rhwng profiad y claf a chanlyniadau clinigol.¹⁰ Mae hyn yn awgrymu y bydd cleifion neu ddefnyddwyr gwasanaeth sy'n wynebu gwahaniaethu naill ai'n uniongyrchol gan yr ymarferydd neu'n anuniongyrchol oherwydd y diwylliant yng ngweithle'r darparwr yn cael canlyniadau gwaeth. Dylai canolbwyntio ar EDI a gwella amrywiaeth y gweithlu arwain at ganlyniadau gwell i gleifion.¹¹
- 3.8 Mae llawer o sefydliadau sy'n gweithio ym maes iechyd a gofal yn cydnabod hyn ac wedi datblygu eu strategaethau a'u cynlluniau eu hunain gan edrych ar sut y maent yn ystyried EDI yn eu gwaith a sut y gallant fynd i'r afael ag anghydraddoldebau o fewn y system iechyd a gofal. Er enghraifft, mae Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru wedi nodi ei hymrwymiad i EDI yn ei chynllun strategol diweddaraf¹², ac mae'r Comisiwn Ansawdd Gofal wedi cyhoeddi set o amcanion EDI sy'n cyd-fynd â'i gynllun strategol.¹³ Mae GIG Lloegr wedi gweithredu Safon Cydraddoldeb Hil y Gweithlu sy'n cwmpasu pedwar maes eang, 1) recriwtio a datblygu staff, 2) camau disgyblu, 3) bwlio, cam-drin a gwahaniaethu a 4) cynrychiolaeth Bwrdd a diwylliant ac wedi arwain at gyfres o gamau cadarnhaol.¹⁴
- 3.9 Bydd canolbwyntio ar EDI yn ein galluogi i alinio'r rhaglen Cofrestrau Achrededig â sefydliadau eraill o fewn y system iechyd a gofal. Bydd hyn yn ei dro yn helpu codi ymwybyddiaeth o'r rhaglen ac yn ein helpu i gyrraedd cyrhaeddiad mwy amrywiol. Bydd gwella ein hymagwedd at EDI yn ein helpu i sicrhau bod y rhaglen yn diogelu poblogaeth amrywiol y DU orau. Credwn y bydd ychwanegu Safon EDI yn ein helpu i wneud hyn drwy godi safonau a'n galluogi i hyrwyddo arfer gorau. Felly byddwn yn ychwanegu Safon EDI at y *Safonau ar gyfer Cofrestrau Achrededig*.

Y gofynion sylfaenol

- 3.10 Nod y gofynion sylfaenol a'r enghreifftiau o dystiolaeth a awgrymir yw rhoi manylion i Gofrestrau Achrededig am yr hyn y bydd angen iddynt ei wneud i

¹⁰ [Adolygiad systematig o dystiolaeth ar y cysylltiadau rhwng profiad y claf a diogelwch ac effeithiolrwydd clinigol | BMJ Open](#)

¹¹ Gomez L.E. a Bernet P (2019). *Diversity improves performance and outcomes*. Journal of the National Medical Association Cyf 111 Rhifyn 4 Tud 383-392. Ar gael ar <https://www.sciencedirect.com/science/article/abs/pii/S0027968418303584?via%3Dihub> [Cyrchwyd 9 Awst 2022]

¹² [20220323 - HIW Strategic Plan FINAL - EN.pdf](#)

¹³ [Our equality objectives 2021-2025 - Care Quality Commission \(cqc.org.uk\)](#)

¹⁴ [NHS England » Sharing replicable good practice on workforce race equality and inclusion: case studies](#)

fodloni'r Safon a'r mathau o dystiolaeth y gallent ei darparu i ddangos y gofyniad. Nid yw'r enghreifftiau o dystiolaeth wedi'u cynllunio i fod yn rhestr gyflawn a byddai Cofrestrau Achrededig yn gallu darparu unrhyw dystiolaeth i'r tîm Achredu i ddangos eu bod yn cydymffurfio â'r Safon.

- 3.11 Teimlai ymatebwyr yn gyffredinol nad oedd y gofynion sylfaenol yn ddigon clir ac o ganlyniad roedd rhywfaint o ddryswch ynghylch yr hyn a olygwn. Roedd yn ymddangos bod pryderon penodol ynghylch casglu data a beth yn union oedd y disgwyliadau. Roedd yn ymddangos bod pryderon hefyd y byddai'r Safon yn ei gwneud yn ofynnol i Gofrestrau Achrededig gyflwyno cwtâu ar gyfer ei sylfaen o unigolion cofrestredig, aelodau Bwrdd a Phwyllgorau. Nid ydym yn bwriadu i'r Safon newydd gael ei dehongli fel cyflwyno cwtâu naill ai o ran nifer yr unigolion cofrestredig nac o ran aelodau'r Bwrdd a Phwyllgorau. Nod y casgliad data yw helpu Cofrestrau Achrededig i ddeall demograffeg eu hunigolion cofrestredig a dechrau deall rhwystrau posibl i grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol. Byddai Cofrestrau Achrededig wedyn yn gallu defnyddio'r wybodaeth hon i helpu i hyrwyddo tegwch yn eu maes.
- 3.12 Byddwn yn adolygu'r gofynion a geiriad y gofynion sylfaenol i sicrhau eglurder ar gyfer Cofrestrau Achrededig. Byddwn hefyd yn ychwanegu arweiniad at ein *Canllawiau ar gyfer Cofrestrau Achrededig*¹⁵ ar y Safon newydd. Byddwn yn ystyried a oes angen canllawiau atodol ysgrifenedig ychwanegol ar gyfer y Safon hon ac a oes unrhyw ymgysylltu pellach y gallwn ei wneud â Chofrestrau Achrededig cyn gweithredu'r Safon er mwyn sicrhau bod y gofynion yn glir.

Newidiadau i Safonau eraill

- 3.13 Fel gyda'r gofynion sylfaenol arfaethedig, awgrymwyd y gallai'r newidiadau i'r Safonau eraill fod yn gliriach. Byddwn yn adolygu geiriad y newidiadau arfaethedig ac yn datblygu enghreifftiau o'r mathau o dystiolaeth y gellid eu defnyddio. Byddwn hefyd yn diweddarau ein *Canllawiau ar gyfer Cofrestrau Achrededig* i sicrhau ei fod yn adlewyrchu'r newidiadau.

Canllawiau atodol a rhannu arfer da

- 3.14 Awgrymodd y mwyafrif o'r rhai a ymatebodd i'r cwestiwn y byddai canllawiau ychwanegol ar y Safon yn ddefnyddiol. Cafwyd nifer o awgrymiadau ar ba feysydd y dylai hyn gynnwys o egwyddorion cyffredinol EDI i bynciau penodol megis casglu data, rhagfarn anymwybodol, ac asesiadau effaith cydraddoldeb. Rydym yn bwriadu cyflwyno canllawiau arfer da ar gyfer meysydd penodol yn ymwneud â'n Safonau yn 2023/24. Byddwn yn ystyried EDI fel pwnc unwaith y byddwn wedi cwblhau'r set gyntaf o asesiadau. Yn y cyfamser, byddwn yn archwilio sut orau i rannu arfer da gan gynnwys defnyddio blogiau, crynodebau, seminarau a gweminarau. Byddwn hefyd yn archwilio cyfleoedd i weithio gyda'r Gydweithredfa Cofrestrau Achrededig i rannu arfer da.
- 3.15 Rydym hefyd yn cydnabod bod budd i rannu arfer da gyda'r cofrestrau hynny sy'n gwneud cais am achrediad. Rydym yn rhagweld y bydd unrhyw ddeunyddiau arfer da a gynhyrchwn ar gael i'r cyhoedd. Mae'r tîm Achredu hefyd ar gael i drafod ein Safonau a'r gofynion gyda chofrestrau sy'n bwriadu gwneud cais am achrediad.

¹⁵ [Canllawiau ar y Safonau ar gyfer Cofrestrau Achrededig \(professionalstandards.org.uk\)](https://professionalstandards.org.uk)

Gweithredu'r Safonau diwygiedig

- 3.16 Er bod rhai yn cytuno bod ein cynigion yn ymddangos yn deg a chymesur, roedd nifer sylweddol o ymatebwyr o hyd a oedd yn rhannu pryderon ynghylch amseriad arfaethedig y gweithredu.
- 3.17 Rydym yn cydnabod bod pob Cofrestr Achrededig yn wahanol ac y bydd pob un ar wahanol gamau yn eu hystyriaethau o EDI. Ym mlwyddyn gyntaf cyflwyno'r Safon, bydd disgwyl i Gofrestrau Achrededig ddangos eu bod yn ystyried EDI o fewn eu polisiau a'u prosesau. Byddwn yn edrych ar y cyfeiriad teithio a dim ond os byddwn yn nodi mater diogelu'r cyhoedd y byddwn yn cyhoeddi Amodau yn erbyn y Safon newydd.
- 3.18 Fodd bynnag, byddwn yn adolygu'r amseriadau arfaethedig ar gyfer gweithredu'r Safon newydd ac yn ystyried a allwn gymryd agwedd wahanol at ei gweithredu gan gofio na fydd gan rai Cofrestrau Achrededig, o dan y cynigion presennol, lawer o amser i weithredu'r newidiadau.

4. Effeithiau

- 4.1 Fel rhan o'r ymgynghoriad, gofynnwyd a oedd unrhyw effeithiau y dylem eu hystyried wrth benderfynu a ddylid rhoi'r newid ar waith. Gofynnwyd am effeithiau cydraddoldeb yn ogystal ag effeithiau cymdeithasol, ariannol ac amgylcheddol.
- 4.2 Ychydig iawn o ymatebwyr a amlygodd unrhyw effeithiau ar gydraddoldeb. Fodd bynnag, nododd un ymatebwr y gallai unrhyw ofynion ychwanegol ar yr unigolion cofrestredig effeithio'n negyddol ar y grŵp hwn gan fod y mwyafrif o'r unigolion ar ei gofrestr yn fenywaidd.
- 4.3 Fel y nodwyd yn yr ymgynghoriad, bydd dealltwriaeth o ddemograffeg y Cofrestrau Achrededig yn helpu Aseidiadau Effaith y rhaglenni. Rydym yn cynnal Aseidiadau Effaith ar gyfer pob penderfyniad a wneir. Rhan fawr o hyn yw effeithiau Cydraddoldeb. Bydd deall demograffeg sylfaen unigolion cofrestredig Cofrestrau Achrededig yn helpu sicrhau ein bod yn nodi grwpiau ac effeithiau perthnasol a bydd yn ein helpu i sicrhau ein bod yn ymgysylltu â'r grwpiau cywir yn ystod ein hasesiadau.
- 4.4 Fel y nodwyd yn yr ymgynghoriad, credwn yn gyffredinol y bydd cyflwyno Safon EDI yn cael effaith gadarnhaol. Credwn y bydd canolbwyntio ar EDI a gweithio i ddeall a lleihau rhwystrau i ymuno â phroffesiwn yn creu gweithlu mwy amrywiol.
- 4.5 Thema sy'n codi dro ar ôl tro yn yr ymatebion yw'r effaith ariannol y bydd hyn yn ei chael ar Gofrestrau Achrededig. Roedd llawer o'r ymatebion drwy gydol yr ymgynghoriad yn nodi'r effaith ar adnoddau o orfod gweithredu'r gofynion sylfaenol mewn cyfnod byr o amser. Fel y nodwyd yn y papur ymgynghori, mae risg y gallai costau uwch ar gyfer y gofrestr gael eu trosglwyddo i'r defnyddiwr gwasanaeth drwy godi ffioedd cofrestryddion. Os bydd y Gofrestr Achrededig yn cynyddu ffioedd gallai hyn olygu bod unigolion cofrestredig yn dewis ymddiswyddo o'u cofrestrriad, yn enwedig o ystyried yr argyfwng costau byw cyfredol. Fe wnaethom hefyd amlygu'r risg bosibl y byddai Cofrestrau Achrededig yn optio allan o'r rhaglen os ydynt yn gweld y gofynion yn rhy feichus. Byddwn yn adolygu ein cynigion ar gyfer gweithredu er mwyn ceisio lliniaru'r risgiau hyn.

- 4.6 Rydym yn cydnabod bod Cofrestrau Achrededig i gyd yn wahanol ac felly y byddant ar wahanol gamau o ran eu hystyriaethau o EDI. Gwnaethom nodi'r sylwadau a oedd yn amlygu y gallai rhai cofrestrau Achrededig ei chael yn anodd gweithredu'r gofynion sylfaenol mewn cyfnod byr o amser. Byddwn yn adolygu'r cynllun gweithredu i geisio lleihau'r baich ar y Cofrestrau Achrededig.
- 4.7 Byddwn yn adolygu ac yn diweddarau'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb cyn gwneud unrhyw newidiadau.

5. Casgliad

- 5.1 Fel rhan o'n hymrwymiad i gefnogi a hyrwyddo EDI byddwn yn cyflwyno Safon EDI i'r *Safonau ar gyfer Cofrestrau Achrededig*. Mae'r ymatebion i'r ymgynghoriad yn amlwg yn cefnogi cyflwyno'r Safon newydd fel ffordd o sicrhau cysondeb o fewn EDI ar draws y rhaglen a defnyddio cyrhaeddiad cyfunol y Cofrestrau Achrededig a'r Awdurdod i helpu i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau o fewn y system iechyd a gofal ehangach. Fodd bynnag, byddwn yn adolygu'r amseroedd gweithredu arfaethedig ac awgrymiadau gan ymatebwyr ar gyfer y Safon a'r gofynion sylfaenol.